

<b>Teitl y swydd</b>	<b>Cyflwynydd Tywydd</b>		
<b>Teulu'r swydd</b>	<b>Cyflwynydd</b>	<b>Band</b>	<b>C</b>

### **Pwrpas y swydd**

Derbyn yr wybodaeth a gyflwynir, a chreu stori tywydd i'w darlledu sy'n cyd-fynd â'r briff meteorolegol, ar eich liwt eich hun.

Cyflwyno darllediadau sy'n sôn am yr effeithiau sy'n berthnasol i'r gynulleidfa yn ôl lleoliad, digwyddiadau a gwahaniaethau daearyddol.

Creu a chyflwyno pob math o gynnwys lleol a rhanbarthol am y tywydd ar bob llwyfan – er enghraifft, canolbwyntio'n bennaf ar y gwasanaeth amser cinio ac amser brecwast.

Dangos arddull gyflwyno broffesiynol gyda'r gallu i gyflwyno ar leoliad, neu yn y stiwdio.

### **Y prif gyfrifoldebau ac atebolrwydd**

- Derbyn yr wybodaeth a gyflwynir, a mynd ati ar eich liwt eich hun i greu stori tywydd i'w darlledu, sy'n cyd-fynd â'r briff meteorolegol.
- Derbyn rhagolygon y tywydd, yn unol â'r briff gan y meteorolegydd, ac egluro'r rhagolygon i'r gynulleidfa mewn ffordd ddifyr a dymunol sy'n diddanu ac yn rhoi gwybodaeth.
- Cyflwyno darllediadau ar y teledu a'r radio sy'n sôn am yr effeithiau sy'n berthnasol i'r gynulleidfa yn ôl lleoliad, digwyddiadau a gwahaniaethau daearyddol.
- Dangos arddull gyflwyno broffesiynol gyda'r gallu i gyflwyno ar leoliad, neu yn y stiwdio. Bod yn gyfarwydd â'r llwyfannau digidol perthnasol a gallu creu a chyflwyno cynnwys sy'n addas i arddull a chynulleidfa pob llwyfan digidol, yn unol â chyfarwyddyd golygyddion lleol.
- Rhoi gwybod i gydweithwyr yn yr adran newyddion am storïau tywydd sy'n datblygu, a gallu helpu i lywio'r broses o gasglu newyddion.
- Yn gallu cyflwyno ar leoliad, ac yn y stiwdio.
- Mae'n bosib y gofynnir i chi gyfrannu at wasanaethau lleol a rhanbarthol eraill, a gwasanaethau i'r gwledydd, yn ôl yr angen.
- O bryd i'w gilydd, cyflwyno rhaglenni/segmentau eraill o fewn raglenni, nad ydynt yn ymwneud â'r tywydd.
- Sgwrsio â chyflwynwyr eraill ar yr awyr, gan fod yn barod i ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennych am y tywydd yn y sgwrs honno.
- Defnyddio technolegau newydd yn y ffordd orau bosib – gan gynnwys datblygiadau ym myd cyfryngau cymdeithasol – i ddarparu cynnwys i gynulleidfaoedd, a gosod esiampl o ran dysgu i ddefnyddio systemau newydd ac addasu i ddulliau gwaith gwahanol.
- Dull trefnus o weithio, a'r gallu i gadw at derfynau amser tynn heb lawer o oruchwyliaeth.
- Cyflawni dyletswyddau yn unol â pholisi lechyd a Diogelwch y BBC bob amser.

### **Gwybodaeth, sgiliau, hyfforddiant a phrofiad**

**Hanfodol**

- Dealltwriaeth dda iawn o theori a gwyddoniaeth y tywydd, gyda phrofiad priodol o ddarlledu.
- Gallu defnyddio technoleg darlledu a thechnoleg gyfrifiadurol, a bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y maes.
- Sgiliau cadarn i weithio mewn tîm, a'r gallu i feithrin cysylltiadau cryf â phobl allweddol mewn rhannau eraill o'r BBC.
- Gallu cyfleu syniadau am straeon a rhaglenni, a chyfrannu at y broses gynllunio.
- Dangos ymrwymiad i wella amrywiaeth yn y BBC, a deall sut y gall gwahaniaethau unigol fod yn fanteisiol i'r BBC.
- Gallu cyfleu syniadau am straeon a rhaglenni, a chyfrannu at y broses gynllunio.
- Gallu gweithio'n unol â therfynau amser.
- Dealltwriaeth o weithdrefnau iechyd a diogelwch, a sut maen nhw'n berthnasol i ddarlledu.

**Effaith y swydd*****Gwneud penderfyniadau***

Gallu gweithredu ar eich pen eich hun ar eitemau, ac ar elfennau eraill o raglenni. Datblygu stori'r tywydd ar eich liwt eich hun, gan adlewyrchu'r effaith ar y rhanbarthau/ardaloedd dan sylw, a mabwysiadu arddull addas.

***Hyd a lled***

Pwrpas y swydd yw cyflwyno'r tywydd a'i roi mewn cyd-destun. Mae'n bosib y bydd angen i ddeiliad y swydd gael trafodaethau ar yr awyr â gwesteion/cyflwynwyr eraill.

**Gwybodaeth arall****At ddefnydd y Tîm Dyfarnu yn unig**

Cod y Swydd

Diffiniad:

Cynnwys

*Mae'r disgrifiad hwn o'r swydd yn ddatganiad ysgrifenedig o nodweddion hanfodol y swydd, gyda'i phrif atebolrwydd, ac mae'n cynnwys cofnod o'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad sy'n ofynnol i'w chyflawni i lefel foddhaol. Nid rhoi cofnod cyflawn, manwl o bob agwedd ar y dyletswyddau sy'n rhan o'r swydd yw'r bwriad.*